CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 1af o Fedi 2015 yn Yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol
Cadeirydd: Lon Davies
Cynghorwyr: Ieuan Davies, Llinos Davies, Ceirwyn John, Julie Charlton, Alwyn Evans
Cynghorydd Sir: Cyng. Keith Lewis
Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Enid Cole

Cofnodion 07.07.15
Cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Llinos Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion
32. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Pantyrodyn Eglwyswrw – Ar ol y cyfarfod mis Gorffennaf fe dderbyniwyd newid i'r cais blaenorol sef paneli solar yr y to. Helen wedi cysylltu gyda pawb oedd yn y cyfarfod blaenorol I gadarnhau hyn ac roedd pawb yn hapus gyda'r newid.

Gohebiaeth
33. Llywodraeth Cymru – Llwybyr Troed A487 – Llythyr I cadarnhau bod y cynllun rhagarweiniol wedi ei gwbwlhau. Fe fydd y Cyng. Keith Lewis yn dal I edrych ar y sefyllfa yma.
34. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cais Cynllunio Pantyrodyn. Llythyr I cadarnhau bod y cais wedi ei dderbyn.
35. Shelter Cymru – Llythyr am gais ariannol – Cynigodd Alwyn Evans ac eiliodd Ceirwyn John i ail edrych ar y cais yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
36. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr M. Watkins, Penpedwast Eglwyswrw – Cais ar gyfer Sied offer fferm gyda paneli solar ar y to. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais yma.
37. Cyngor Sir Benfro – Digwyddiadau Digymell – Dosbarthwyd y gwybodaeth I pawb.
38. Presept 2il daliad £1,417.00
39. Cyfanswm yn y banc 25.7.15 £1,970.28cr
40. Cyfanswm yn y banc 25.8.15 £3,387.28cr yn cynnwys presept

Unrhyw Fater arall
41. Mae Cyngor Sir Benfro yn Newid digwyddiadau'r Hydref – Fe fydd y wybodaeth yma yn yr hysbysfwrdd.
42. Shelter Cymru 50+ Gwybodaeth ynglyn a prosiect yn Sir Benfro – Fe fydd y gwybodaeth yma yn yr hysbysfwrdd. Cyng. Keith Lewis yn gobeithio mynychu'r cyfarfod.
43. Gwybodaeth ynglyn a hyfforddiant Cymorth Cynllunio yn Neuadd Y Sir 9fed o Fedi-Dosbathwyd y wybodaeth I'r Cynghorwyr.

44. Llythyr oddi wrth Wil Thomas, Llysybryn, Eglwyswrw. Pryder ynglyn a'r dwr sydd yn aros ar y ffordd tu allan I Llysybryn. Hefyd bod yna rhigolau/gullies ar y ffordd eisiau gwagio. Cyng Keith Lewis I ddilyn y mater I fyny.
45. Gwahoddiad wrth W.I Eglwyswrw ar gyfer noson o gwestiynau yn yr Hen Ysgol ar y 13 o Hydref.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 6ed o Hydref am 8.00y.h.
Terfynwyd y cyfarfod am 8.30 y.h.